

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Ecolegydd Cynorthwyol

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH
ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Ecolegydd Cynorthwyol

**Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth?  Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.**

**Rydym yn chwilio am Ecolegydd Cynorthwyol i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.**

**Cyflog:** PS1 - £39,862 - £41,771

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:**– un o'r swyddfeydd canlynol – Drenewydd, Llandrindod, Aberystwyth

**Dyddiad cau:** 14/09/2026

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Bydd y Cynorthwyydd Ecoleg yn gyfrifol am gynorthwyo’r tîm Newid Hinsawdd a Amgylcheddol i weithredu gofynion polisi Llywodraeth Cymru (LlC) a deddfwriaeth amgylcheddol megis Deddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1980 ac Adran 6 Deddf Amgylchedd Cymru. Darparu cyngor a chefnogaeth ecolegol broffesiynol i ACGCHC a'n partneriaid yn ymwneud â'r asesiad effaith a mesurau lliniaru ein gweithredoedd ar ecoleg a bioamrywiaeth, gan sicrhau fod ACGCHC yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd bioamrywiaeth.  Darparu cymorth ecolegol uniongyrchol a chyngor technegol i dimau cyflawni cyfalaf a chynnal a chadw ACGChC, gan gynnwys adolygu dogfennau mewnol ac allanol, cynnal ac adolygu arolygon ac adroddiadau, darparu cyngor technegol, mynychu cyfarfodydd a goruchwylio safleoedd.

Gweithio o fewn y Tîm Amgylchedd i reoli rhestr eiddo stadau meddal gan gynnwys adnabod lleoliad a chyflwr yr asedau ecolegol. Cynnig, dylunio a rheoli rhaglen o brosiectau gwella ecolegol wedi'u datblygu o weithgareddau cynnal a chadw arferol ac ymatebol sy'n gysylltiedig â rheolaeth stadau meddal ac amgylcheddol. Cynorthwyo’r Timau Ecoleg ac Amgylchedd a staff arall ACGCHC i gael trwyddedau CNC lle bo’r angen a chyflawni unrhyw amodau a gofynion megis arolygon, monitro ac adrodd i sicrhau cydymffurfiaeth.  Gweithio gyda’r Ecolegydd i ddatblygu rhaglen o Drwyddedau Gwaith ar gyfer Rhywogaethau Gwarchodedig hyd at foddhad CNC.  Gweithio gyda'r Ecolegydd a CNC i ddatblygu system adrodd ar-lein ar gyfer cydymffurfiaeth gyda thrwyddedau, a gweithio i reoli prosiectau sy'n gysylltiedig â gwelliant ecolegol a gwaith lliniaru.




- Cynorthwyo’r Tîm Newid Hinsawdd ac Amgylcheddol i weithredu gofynion polisi Llywodraeth Cymru (LlC) a deddfwriaeth amgylcheddol megis Deddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1980 ac Adran 6 Deddf Amgylchedd Cymru.

- Darparu cyngor a chefnogaeth ecolegol broffesiynol i ACGCC a'n partneriaid yn ymwneud â'r asesiad effaith a mesurau lliniaru ein gweithredoedd ar ecoleg a bioamrywiaeth, gan sicrhau fod ACGCC yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd bioamrywiaeth

- Darparu cymorth ecolegol uniongyrchol a chyngor technegol i dimau cyflawni cyfalaf a chynnal a chadw ACGChC, gan gynnwys adolygu dogfennau mewnol ac allanol, arolygon ac adroddiadau, rhoi cyngor technegol, mynychu cyfarfodydd a goruchwylio safleoedd.

- Gweithio gyda'r Ecolegydd a'r Tîm Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd i reoli prosiectau sy'n ymwneud â gwaith gwella ecolegol a mesurau lliniaru.

- Gweithio o fewn y Tîm Newid Hinsawedd ac Amgylchedd i reoli rhestr eiddo stadau meddal gan gynnwys adnabod lleoliad a chyflwr yr asedau ecolegol.

- Cynnig, dylunio a rheoli rhaglen o brosiectau gwella ecolegol wedi'u datblygu o weithgareddau cynnal a chadw arferol ac ymatebol sy'n gysylltiedig â rheolaeth stadau meddal ac amgylcheddol.

- Cynorthwyo’r Timau Ecoleg ac Amgylchedd a staff arall ACGCC i gael trwyddedau CNC lle bo’r angen a chyflawni unrhyw amodau a gofynion megis arolygon, monitro ac adrodd i sicrhau cydymffurfiaeth.

- Gweithio gyda Ecolegydd ACGChC i ddatblygu rhaglen o Drwyddedau Gwaith ar gyfer Rhywogaethau Gwarchodedig hyd at foddhad CNC

- Gweithio gyda Ecolegydd ACGChC a CNC i ddatblygu system adrodd ar-lein ar gyfer cydymffurfiaeth gyda thrwyddedau

- Gweithio gyda Ecolegydd ACGChC i ddatblygu'r System Gwirio Amgylcheddol Cefnffyrdd ar gyfer yr holl raddfa o waith i sicrhau fod ACGCC yn parhau i gydymffurfio'n gyfreithiol

- Gweithio gydag ACGCC a LlC a phartneriaid i ddatblygu a chyfrannu at unrhyw Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y dyfodol.

- Gweithredu arolygon safle ac ymweliadau monitro fel bo'n ofynnol i sicrhau fod staff ACGCC/ partneriaid/ ymgynghorwyr a Phrosiectau Mawr Trafnidiaeth LlC i gyd yn gweithio mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, polisi, arfer gorau a dogfennau cysylltiedig e.e. CEMP, HEMP, EIA ac ymrwymiadau trwydded CNC.

- Manylu, rhaglennu ac ymgymryd neu gaffael arolygon ecolegol arbenigol ac ymweliadau monitro ac adroddiad

- Datblygu systemau cofnodi a chronfeydd data i gasglu gwybodaeth am arolygon ecolegol




## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i’r swydd

### Hanfodol

Gallu gweithio mewn amgylchedd tîm.

Gallu hunan gymell, ymroi, ac arddangos mentergarwch personol.

Sgiliau rhyngbersonol wedi’u datblygu’n dda a'r gallu i ddylanwadu a chymell eraill.
Gallu gweithio’n ddiogel dan bwysau a delio gyda therfynau amser tynn.

Gallu gweithio gydag ychydig o oruchwyliaeth, blaenoriaethu llwyth gwaith personol.

Sgiliau trefnu da, arloesol a blaengar.

Gallu cyfathrebu mewn ffordd gwrtais, dactegol, diplomyddol wrth ddelio gyda materion cynhennus, deall polisïau a chyfyngiadau eraill.

Gallu darparu arweiniad, rheoli, goruchwylio ac arwain ar faterion ecolegol o fewn timau a phrosiectau ACGCC.

Gallu dal ati hefo cyflawni cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol a'r ymarfer ecolegol gorau pan nad yw pob amser yn ddewis poblogaidd ymysg eraill.
Gallu gweithio mewn ymgynghoriad a phartneriaeth â sefydliadau ac ymgynghorwyr allanol.

Ymroi i gywirdeb a chyflawni tasgau i gyflawni'r canlyniad gorau i'r amgylchedd.
Tystiolaeth o ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol parhaus.

Gweithio oriau y tu allan i oriau arferol yn aml, yn ôl y gofyn.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

### Hanfodol

Gradd neu MSc mewn Sŵoleg, Botaneg, Ecoleg neu bwnc ecolegol perthnasol. HNC/HND/NVQ (Lefel 4) mewn pwnc yn ymwneud ag ecoleg, ac o leiaf 5 mlynedd o brofiad perthnasol.

## Profiad perthnasol

### Hanfodol

Profiad o gynnal arolygon ecolegol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd.

Deall ecoleg ystod o rywogaethau gwarchodedig cyffredin.

Profiad o adnabod ystod o rywogaethau a chynefinoedd cyffredin y DU.

Wedi bod yn rhan o ddatblygiad mesurau lliniaru a gwaith gwella rhywogaeth neu gynefin.

Profiad o wneud cais a chael trwydded ar gyfer Rhywogaethau a Safleoedd Gwarchodedig.

Dealltwriaeth dda o Ddeddfwriaeth Amgylcheddol berthnasol Cymru/DU yn enwedig ar gyfer Cadwraeth Natur.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol
### Hanfodol

Gallu defnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GiS), dal data yn y maes, dadansoddi a thrin data, cynhyrchu mapiau ac adroddiadau.

Llenyddiaeth TG - defnydd o Word, cronfeydd data a thaenlenni Excel.

Sgiliau ysgrifennu adroddiadau cryno, rheoli a dehongli data.

Gallu craffu adroddiadau a dogfennau a gynhyrchir gan eraill i sicrhau fod y cynnwys yn dderbyniol.

Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig datblygedig i gynulleidfa eang.  Yn gallu ysgogi ac addysgu eraill.

Sgiliau ymarferol yn adnabod prif grwpiau rhywogaeth a gwybod ble i ddarganfod gwybodaeth bellach.

Sgiliau datrys problemau a darganfod ffyrdd o ddatrys gwrthdaro a chyflawni canlyniadau o safon.

Gwybodaeth o ddeddfwriaeth cadwraeth natur y DU, deddfwriaeth amgylcheddol ehangach, safonau a chanllaw Arfer Dda'r Diwydiant.

Ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch.

Trwydded Yrru ddilys gyfredol.

## Gofynion ieithyddol
### Hanfodol

Mae gallu siarad Cymraeg yn ddymunol ac Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a



- 29.5 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.